

Straeon Mudo Caerdydd



Llun - diolch i Annelise Girardi ©

Miss Girardi

Cefais fy ngeni yng Nghreigiau, Caerdydd. Roedd Dad o'r Eidal - ei enw oedd Antonio Girardi. Roedd ganddo siop farbwr yng Nghaerdydd o'r enw Il Figaro yn Heol Charles yng Nghanol y Ddinas. Ysgrifennwyd erthygl papur newydd amdano i ddathlu 25 mlynedd o weithio gyda'i bartner yn y siop. Roedd y ddau'n Eidalwyr. Daeth dad o Cervinara ger Napoli. Mae ei deulu'n byw ar winllan.

Roedd wrth ei fodd yn coginio llysiau a phasta. Ei iaith gyntaf oedd Eidaleg. Roedd y teulu'n Babyddion ond yn agored at bobl o grefyddau eraill a'r byd yn ehangach. Roedd yn hoff o ffasiwn ac yn drwsiadus, fel nifer o ddynion Eidalaid. Arferai pobl edmygu ei siwtiau o'r Eidal. Ychydig wedi iddo symud yma, dechreuodd Marks & Spencer fewnforio dillad o'r Eidal.

Cyrhaeddodd yn Nadolig 1963 ac arhosodd mewn fflat yn Nhreganna. Pan gyrhaeddodd Gymru roedd yn 23 oed. Roedd yn rhaid iddo fynd yn ôl i wneud Gwasanaeth Cenedlaethol yn yr Eidal. Daeth yn ôl ac aros am flwyddyn. Cafodd 3 phlentyn - fi a'm dau frawd hŷn. Teithiodd ar y trê'n a'r llong i gyrraedd yma. Dysgodd Saesneg yma.

Penderfynodd ddychwelyd i Gaerdydd am nad oedd llawer o gyfleoedd i wneud arian yn yr Eidal bryd hynny. Arhosodd am ei fod yn hoffi Caerdydd a bod y Cymry'n gyfeillgar iawn er na allai siarad Saesneg i ddechrau.

Aeth ei chwaer i Awstralia i fod yn wniadyddes yn Adelaide, Awstralia. Mae gen i lawer o deulu yn Awstralia a'r Eidal. Roedd dad yn gogydd da iawn a dysgodd lawer imi. Hoffai goginio pasta a phupur. A rhoddodd arllwg ym mhopeth.

Roedd yn hapus yma. Pan fu farw fe'i claddwyd yn y fynwent leol. Roedd yn falch iawn ei fod wedi aros yma.

Mae Civararra yn debyg i Gaerdydd am fod yna gefn gwlad a môr. Dwi'n meddwl dyna pam yr oedd mor hapus yma.

Hoffai chwarae dartiau a chael brecwast Cymreig da.

Dwi'n meddwl fod arno rywfaint o ofn, ond ei fod hefyd yn gyffrous i ddod yma, am na wyddai'r iaith. Cafodd drafferth dysgu, yn enwedig oherwydd yr acen Gymreig. Siaradai ag acen Eidalaid gref.

Dwi'n meddwl bod yn well gennai'r Eidal oherwydd y tywydd. Ond dwi'n hoffi'r ddwy wlad. Mae'n dda gallu ymweld â'm teulu Eidalaid - dwyawr i ffwrdd ydyn nhw ar yr awyren. Dwi'n ceisio mynd draw bob blwyddyn. Dwi'n teimlo'n hanner Eidales a hanner Cymraes. Galla i ddeall mwy o Eidaleg nag y galla i ei siarad.

Dydy'r siop ddim yno mwyach ond dwi'n farbwr cymwys, ond bu farw dad cyn imi ddysgu mwy ganddo. Daeth â'i offer barbwr gydag ef o'r Eidal.

Mae Mam yn Gymraes. Roedden nhw'n byw ym Mhentre'r Eglwys cyn dod i Greigiau.

Chymerodd Dad fyth ddiwrnod yn sâl o'i siop drwy gydol ei amser yno.

